CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Cysylltwr/Connector: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Iau, Mai 3ydd, 2018 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Cynghorwyr: Mrs. Eira Lewis, Mrs. Anne Williams, Mr. Huw Lloyd, Mr. Geraint Jones, Mrs. Becky Mollison-White, Mrs Rhiannon Jones a Mr John W Jones.
Cynghorydd Sir: Mabon ap Gwynfor
Cyhoedd: Mr Andy Morgan

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eira Lewis yn absenoldeb y Cadeirydd.

2. **Ymddiheuriadau:**
   Mr David Williams (Cadeirydd) a Mr Delwyn Lewis

3. **Cofnodion cyfarfod Mawrth 9fed, 2018**
   Derbyniwyd yn gywir ac arwyddwyd gan Eira Lewis.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**
   - **ARWYDDION DIM CWN** – y clerc wedi archebu arwydd bach a Geraint wedi dod a arwydd mwy i roi o amgylch y fynwent.
   - **ARWYDDION CYFLYMDER** – clerc wedi derbyn amcan bris yn cychwyn £1700 hyd at £3495 – deallir y bod yr heddlu yn gosod gwifrau cyflymder unwaith eto dros yr haf – penderfynu aros i dderbyn adroddiad gan yr heddlu cyn gwneud penderfyniad i brynu.
   - **PLAMANT BRO DINAM** – Y clerc a'r cynghorydd Sir wedi cysylltu â Sir Ddinbych ynglŷn a hyn – Y Sir wedi gaddo ymweld o fewn y pythefnos nesa.
   - **CYFLWR FFYRDD** – ffordd Tŷ'n Fach i Llechwedd Cilan – wedi cael cadarnhad eu bod yn mynd i lenwi'r tyllau a chwistrellu drosto ar y gost o £35,000. Nid yw hyn yn dderbyniol, gan na fydd hyn yn para yn hir. Clerc i yrru llythyr i Tim Towers neu Tony Ward i nodi ein gwrthwynebiad ar hyn.
     Ffordd Dinam i'r Berwyn – cysylltu a'r Sir hefyd ynglŷn a chyflwr y ffordd yma.
5. **Gohebiaeth**
   - Enwebwyd y Cadeirydd a'r Clerc i gynrychioli ar y Cyfarfodydd Rhanbarthol.
   - Cylch Meithrin Cynwyd – derbyniwyd llythyr yn gwrthod y cynnig o ddefnyddio y Ganolfan yma yn Llandrillo
   - E-bost cynnal 'Sesiwn Galw Mewn Cenedlaethol' dydd Iau 24ain o Fai. Penderfynu i beidio cynnal y sesiwn yma yn Llandrillo, ond i'r clerc ymateb drwy cynnig iddynt ei gynnal yn Corwen ar gyfer y pentrefi yn y dalgylch. (ateb 11/5)
   - Llythyr gan Ysgol Dinas Bran yn gofyn am arian tuag at atgyweirio Neuadd yr Ysgol. Penderfynu peidio cyfrannu
   - Apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 – yr Urdd wedi rhoi targed o £6000 i Llandrillo i gasglu tuag at yr Eisteddfod. Cynghorwyr yn cytuno i beidio cynnig y

targed yma. Y clerc wedi derbyn galwad gan Cyngor Cymuned Cynwyd yn cynnig uno i cyd drefnu digwyddiad. Cynghorwyr yn cytuno ar hyn ac i'r clerc gysylltu a'r Urdd i nodi ein cynlluniau. (Gyrrwyd ebost 11/5)

6. **Materion Cynllunio**
   - Y clerc wedi holi adran cynllunio am yr hyd o amser sydd angen cadw gwybodaeth materion cynllunio. Cadarnhawyd dim mwy na 6 mis, ac yna eu difa drwy defnyddio peiriant malu papur.
   - 18 Rhoslan – Dymchwel y porth a chodi estyniad – Dim gwrthwynebiad

7. **Materion Ariannol**
   - y Mandad wedi ei gadarnhau gan y banc, a'r sieciau wedi'w talu D. Williams £300, Ysgol Bro Dyfrdwy £200, Un Llais Cymru £95, toiledau £888 a Gaenor Richards £119.99
   - Bancio ar lein – Cynghorwyr penderfynu £2,500 yr uchafswm o wariant ar lein.
   - Awdit mewnol wedi ei archwilio eleni gan Maria Williams, ac yn fodlon helpu hefyd gyda'r Awdit Allanol.
   - Y clerc wedi cofrestru gyda HMRC fel cyflogwr i dalu cyflog y clerc.
   - Arwyddwyd cytundeb cyflogaeth y clerc.
   - Taliad Precept cynta wedi cyrraedd - £1961
   - Anfonebau i'w talu
     - Y Ganolfan – 3 pwyllgor gan Cyfarfod yr Hen Ysgol = £30
     - Richard Moody – torri cae chwarae 2 waith = £120
     - Un Llais Cymru – clerc mynychu cwrs ' Local Government Finance Training' = £40
     - Clerc – arwydd dim cwn - £5.29
     - Yswiriant BHIB - £378.33

8. **Unrhyw fater arall**
   - **BLODAU** – Anne Williams i gysylltu â Bronwen i drefnu blodau ar gyfer Bro Dinam.
   - **BIN GWYRDD** – penderfynu adnewyddu y bin gwyrdd y fynwent am y flwyddyn – y clerc i ymchwilio'r gost.
   - **GDPR** – General Data Protection Regulation – y clerc wedi cysylltu â Un Llais Cymru am arweiniad ar y mater yma – yn disgwyl ymateb.
   - **YSWIRIANT** – Nid yw AON yn cynnig yswiriant ar gyfer Cyngor Cymunedau eleni, ac wedi trosglwyddo ein gwybodaeth i BHIB gyda pris o £378.33. Penderfynu i fynd gyda'r cwmni yswiriant yma.
   - **MEWN GOFNODI I UNLLAIS Cymru** – y clerc wedi derbyn enw defnyddiwr a cyfrinair newydd i fynd mewn i'r fewnrwyd – y cynghorwyr i gysylltu a'r clerc am y wybodaeth yma.
   - **CYFARFOD YR HEN YSGOL** – wedi creu cyfansoddiad i'r pwyllgor. Llawer o syniadau ar gyfer defnydd o'r adeilad. Angen creu Cynllun Busnes i sicrhau bo'r Sir yn ei werthu i'r gymuned am 11% o werth yr adeilad. Y Clerc i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i Sir Ddinbych.
   - **YSGOL BRO DYFRDWY** – yn llawn (capasiti o 105 ar hyn o bryd) . Addasu yr ysgol i ddefnyddio y neuadd a fedr godi y capasiti i 135.

Cyfarfod nesaf - Nos Wener, Mehefin 1af am 7.30 y.h. yn y Ganolfan.

Arwyddwyd: ……

Dyddiad : ……